Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 5 Mawrth 2014**

Amser:
**09.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd – Sesiwn graffu ariannol (09:30 - 10:30) (Tudalennau 1 - 36)

E&S(4)-07-13 papur 1

Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr
Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol
Matthew Quinn, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

**Egwyl (10:30–10:45)**

## 3 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd – Sesiwn graffu gyffredinol (10:45 - 12:00) (Tudalennau 37 - 50)

Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaeth, Bwyd a'r Môr
Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol
Matthew Quinn, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

## 4 Papurau i'w nodi

**Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Ymateb i’r argymhellion yn adroddiad rhywogaethau goresgynnol estron y pwyllgor** (Tudalennau 51 - 57)
E&S(4)-07-14 papur 2

**Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd - Y wybodaeth ddiweddar ynghylch diogelu arfordir Cymru** (Tudalennau 58 - 59)
E&S(4)-07-14 papur 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

### Papur gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

1. Yn ystod yr Hydref y llynedd, cyhoeddais ddatganiad lefel uchel, 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus', a oedd yn dangos sut y mae fy adran i wedi cyfrannu at amcanion, gweledigaeth ac uchelgais gyffredinol Llywodraeth Cymru, a sut y mae'n parhau i wneud hynny.

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements/dat20131022-e1.pdf?langoption=3&ttl=Creu%20Dyfodol%20Cadarnach%20a%20Mwy%20Ffyniannus%20%28PDF%2C%20266KB%29

2. Mae'n nodi fy ymrwymiad tuag at sicrhau budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trwy gyfrwng rheolaeth well a mwy cydgysylltiedig a rhagweithiol o'n hadnoddau naturiol. Rydw i wedi ystyried yr holl offerynnau sydd ar gael i mi mewn ffordd ofalus, gan gynnwys rheoliadau, polisïau a chyllid, gan weithredu pecyn o fesurau y maent yn cyflawni canlyniadau strategol y Llywodraeth hon gyda'i gilydd. Mae'r papur hwn yn nodi'r meysydd a nodwyd gennyf i fel y rhai y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt (yn ogystal â'r wybodaeth benodol y gofynnodd y Pwyllgor amdani yn ei lythyr ar 5 Chwefror) a'r cyllid dilynol a neilltuwyd er mwyn eu cyflawni, law yn llaw gyda dadansoddiad cynhwysfawr o'm cyllideb.

**Blaenoriaethau i'w gweithredu**

***Twf Gwyrdd***

3. Mae gan Gymru fantais gymharol naturiol pan ystyrir yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer twf gwyrdd. Mae datblygiad seilwaith gwyrdd yng Nghymru yn nodwedd bwysig o'r gwaith o gyflawni ein huchelgais o ran twf gwyrdd ac mae'n rhan bwysig o'r broses o gyflawni ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac wrth gynorthwyo Cymru ffyniannus.

4. Mae twf gwyrdd yn dynodi newid yn y ffordd y byddwn yn ystyried twf economaidd - mae'n amlygu'r ffaith bod modd i ni gyflawni amcanion economaidd ac amgylcheddol ar yr un pryd. Mae Twf Gwyrdd yn dda i fyd busnes ac rydw i'n datblygu'r dull gweithredu ar y cyd gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Yn ogystal, mae egwyddorion Seilwaith Gwyrdd yn cyd-fynd yn llwyr gyda'n hystyriaethau a'n hamcanion ar gyfer rheolaeth adnoddau naturiol integredig a nodir ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd.

5. Sefydlwyd Grŵp Llywio Twf Gwyrdd, a arweinir ar y cyd gan Peter Davies a'r Athro Garel Rhys, er mwyn llywio a chynnig cyngor am yr agenda twf gwyrdd, gan gychwyn gydag adolygiad o Astudiaeth Sylfaenol Twf Gwyrdd i Gymru.

6. Mae'r broses o newid i garbon isel yn allweddol i'n gweledigaeth ar gyfer economi werdd ffyniannus ac fel adran, rydym yn gweithio i sicrhau bod Cymru

yn manteisio i'r eithaf - er enghraifft, ar ynni carbon isel. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn sicrhau'r budd mwyaf ag y bo modd i Gymru gan ddatblygiadau ynni; ar gyfer busnesau, cymunedau a'n hamgylchedd, gan greu cyflogaeth leol ac incwm y bydd modd ei ail-fuddsoddi yn ein hardaloedd lleol.

7. Yn fuan, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Cyflawni Ynni Cymru, a fydd yn disgrifio sut y byddwn yn datblygu ein huchelgais i fanteisio i'r eithaf ar y broses o symud i economi carbon isel a nodir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel.

8. Mae'r Cynllun hyn dwyn ynghyd camau gweithredu ar draws nifer o bortffolios Gweinidogol, gan ddangos sut y maent yn cyflawni'r uchelgais a nodir yn Ynni Cymru ar y cyd, a sut y maent yn canolbwyntio ar alluogi'r buddsoddiad a hefyd, ysgogi'r budd i Gymru.

9. Yn ogystal, hoffwn ddarparu amgylchedd polisi sy'n galluogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ac ar raddfa fach i ffynnu yng Nghymru. Felly, rydw i'n datblygu cynlluniau gyda rhanddeiliaid i ymestyn y cymorth ar gyfer y sawl sy'n dymuno manteisio ar brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ar raddfa fach. Byddaf yn ceisio manteisio ar gyllid Ewropeaidd, sy'n cynnwys rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo ynni adnewyddadwy gwasgaredig ac ar raddfa fach, a bydd hyn yn rhan annatod o'r Cynllun Datblygu Gwledig (RDP).

10. Yn ogystal, rydw i'n cyd-ddatblygu gwelliannau i Ynni'r Fro ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid, yn unol ag argymhellion y gwerthusiad canol tymor o'r cynlluniau. Yn ogystal, roedd y gwerthusiad yn cydnabod bod nifer o'r rhwystrau mawr wrth ddatblygu y tu hwnt i gynllun a chwmpas y cynllun presennol, megis cynllunio, caniatáu a sicrhau cysylltiadau grid. Rydym eisoes yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

11. Yn ogystal, fel catalydd pellach ar gyfer buddsoddi yn yr economi werdd, rydym yn gweithio i sicrhau bod ein polisi a'n fframweithiau rheoleiddio yn nodi'r cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau naturiol, gan gynorthwyo'r broses o greu marchnadoedd newydd a'r arloesedd i fanteisio arnynt.

12. Ym maes rheoli carbon a dŵr er enghraifft, ceir cyfleoedd i wobrwyo rheolwyr tir am y gwasanaethau a'r budd i'r cyhoedd a ddarperir ganddynt, wrth weithredu mewn ffordd ataliol i leihau'r gost i gymdeithas. Fe'ch cyfeiriaf at baragraffau 56-57 i weld mwy am hyn.

13. Yn ogystal, rydw i'n datblygu camau gweithredu mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), bwyd a'r môr, ymhlith pethau eraill - fe'ch cyfeiriaf at weddill y papur hwn.

### *Defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon*

14. Fel sy'n cael ei gydnabod yn eang ym myd busnes, mae defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon yn arbed arian; mae'n gostwng biliau a defnydd, yn ogystal â chreu swyddi newydd a chyfleoedd masnachol trwy gadwyni cyflenwi.

15. Er enghraifft, mae fy Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff (WIPP) wedi goruchwylio'r canlynol:
- Prosiect GwyriAD (AD) – 15 swydd - adeiladu, 3 swydd - gweithrediad
- Gogledd Ddwyrain Cymru (AD) – 15 swydd – adeiladu, 3 swydd amcangyfrifedig – gweithrediad.
- Canolbarth Cymru (AD) – 3 swydd - cludo nwyddau
- Cwm Yfory (AD) – 15 swydd – adeiladu
- Prosiect Gwyrdd (Gweddilliol) – hyd at 360 swydd – adeiladu, 36 swydd amser llawn yn ôl y rhagolygon – gweithrediadau.
- Gogledd Cymru (Gweddilliol) – rhagolwg o 200/250 swydd – adeiladu; 30/40 swydd – gweithrediad.

Yn ogystal, bydd y cyfleusterau hyn yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gydag allbwn trydanol cyfunol o oddeutu 71MW, sy'n cyfateb â 10% o'r cartrefi yng Nghymru

16. O blith y naw prosiect o fewn WIPP, mae pump wedi dyfarnu contractau erbyn hyn a bydd Agweddau Ariannol y pedwar sy'n weddill yn cael eu Cwblhau erbyn diwedd 2014. Ym mis Rhagfyr, dyfarnodd y prosiect gwastraff gweddilliol cyntaf, partneriaeth Prosiect Gwyrdd sy'n cynnwys pum awdurdod, ei gontract i Viridor. Trwy gyfrwng y broses gydweithio gymhleth hon, llwyddodd y bartneriaeth i gwblhau proses gaffael gystadleuol a chadarn sydd wedi arbed £500m i'r awdurdodau partner dros gyfnod y contract sef 25 o flynyddoedd, o'i gymharu gyda pharhau gyda'u trefniadau tirlenwi presennol. Disgwylir i'r ail brosiect gwastraff gweddilliol, Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, i ddyfarnu ei chontract yn ystod yr haf 2014. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdodau sy'n weddill i gytuno ar ddulliau gweithredu partneriaeth ar gyfer eu prosiectau, er mwyn sicrhau datrysiadau trin gwastraff gweddilliol hirdymor. Yr un mwyaf datblygedig o blith y rhain yw partneriaeth Cwm Yfory, sy'n bwriadu cyhoeddi tendr Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn ystod y gwanwyn 2014.

17. Mae'n ffocws ar ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon - trwy gyfrwng polisïau megis rheoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy - yn creu incwm trwy droi gwastraff yn adnodd ac mae'n darparu eitemau rhad i'r rhai y maent yn cael eu heffeithio gan dlodi, megis nwyddau cartref amldro.

18. Wrth geisio defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon, byddwn yn parhau gyda'n gwaith llwyddiannus i weithredu Tuag at Ddyfodol Diwastraff, strategaeth wastraff Cymru, trwy gyflawni Cynlluniau Sector. Bydd y rhain yn nodi cynigion er mwyn: lleihau gwastraff; gwella gallu busnesau i gystadlu a diogelwch swyddi trwy ostwng costau busnesau; creu swyddi newydd mewn diwydiannau ailgylchu newydd yng Nghymru; a chynyddu diogelwch adnoddau. Mae'r cynlluniau diweddaraf yn cynnwys Cynllun Sector Diwydiannol a Masnachol a Chynllun Sector Cynhyrchu Bwyd, Gwasanaeth a Manwerthu.

19. Ddiwedd y llynedd, lansiais gynlluniau uchelgeisiol i atal gwastraff yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Atal Gwastraff yn nodi sut y mae modd i fusnesau ac aelwydydd yng Nghymru ailddefnyddio neu ymestyn oes cynhyrchion, gan

leihau effaith amgylcheddol gwastraff ac arbed arian ar yr un pryd.

20. Hoffwn dorri'r cyswllt rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd. Rydw i wedi ymrwymo i sicrhau cyflawniad o ran yr economi, ac mae sicrhau cyflenwad iach adnoddau naturiol yn allweddol i hyn. Nid yw'r rhain yn nodau sy'n mynd yn groes i'w gilydd; mae modd gwneud arbedion ariannol enfawr.

21. Llwyddodd awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni targed uchelgeisiol y llynedd, sef ailgylchu 52% o'u gwastraff trefol. Byddant yn cyflawni rôl mawr wrth sicrhau cyfradd ailgylchu o 70% yng Nghymru erbyn 2025, a dim gwastraff o gwbl erbyn 2050, sef y targedau yn ein strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae'r targedau hyn yn golygu ein bod yn rhoi ffocws eglur ar ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, yn ogystal ag atal gwastraff yn y lle cyntaf.

22. Yn gynharach eleni, cyhoeddais y byddai'n Rhaglen Newid Gydweithredol yn cael ei hymestyn - ac y byddai'n rhedeg tan o leiaf ddiwedd blwyddyn ariannol 2015/16. Eleni, mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwerth £3.5m ar gyfer awdurdodau lleol, a bydd hwn yn codi i £4m bob blwyddyn o 2014/15 **(llinell BEL 2190)**.

23. Defnyddir y cyllid hwn er mwyn buddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella cyfraddau ailgylchu ac ansawdd y deunydd a gesglir, wrth i ni symud tuag at sefyllfa lle na welir unrhyw wastraff yng Nghymru. Hoffwn weld cynghorau yn rhannu syniadau da ac arferion da trwy gyfrwng y Rhaglen, er mwyn iddynt allu gwella'u perfformiad a'u heffeithlonrwydd.

***Cadernid***

24. Cadernid ein hadnoddau naturiol yw'r sylfaen gadarn y mae'n cymdeithas yn dibynnu arni. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cymryd camau ar y cyd i wella cadernid ac amrywiaeth ein hadnoddau naturiol a'r sectorau allweddol sy'n dibynnu arnynt. Trwy gyfrwng ymaddasu i Newid Hinsawdd a'n cynlluniau ymaddasu sectorol, rydym yn gweithio i sicrhau cadernid o ran canlyniadau newid hinsawdd hefyd.

25. Un o ganlyniadau newid hinsawdd yw'r ffaith y bydd cyfnodau o dywydd difrifol ac anrhagweladwy yn dod yn fwy cyffredin. Yn dilyn y stormydd yn ddiweddar, rydym wedi cysylltu â'r holl gynghorau yr effeithiwyd arnynt er mwyn cael adroddiadau cychwynnol am y difrod a achoswyd i seilwaith amddiffyn yr arfordir ac asedau arfordirol eraill, a'r anghenion cyllid amcangyfrifedig.

26. Law yn llaw gyda hyn, rydw i wedi gofyn am adolygiad dau gam ynghylch effeithiau stormydd Rhagfyr ac Ionawr ar seilwaith amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd. Cyhoeddwyd rhan gyntaf yr adolygiad ym mis Chwefror ac mae'n dynodi, er bod y stormydd a'r amodau arfordirol cysylltiedig wedi cyrraedd lefelau a ffyrnigrwydd nas gwelwyd yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd, bod llai nag 1% o'r eiddo a'r tir amaethyddol sydd mewn perygl wedi dioddef llifogydd mewn gwirionedd. Heb y buddsoddiad mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r adroddiad

yn awgrymu y byddai effaith y stormydd a gafwyd yn ddiweddar wedi bod lawer yn fwy mewn cymunedau arfordirol, ac y byddai'r risg o bobl yn colli eu bywyd wedi bod yn uwch.

27. Roeddwn yn benderfynol o helpu'r awdurdodau hynny a oedd yn wynebu costau sylweddol i drwsio amddiffynfeydd rhag llifogydd hanfodol, ac ar ôl adolygu fy nghyllidebau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, trefnais y byddai £3 miliwn ar gael yn syth yn ystod y flwyddyn ariannol hon **(llinell BEL 2230)** er mwyn cynorthwyo gwaith brys i'n seilwaith ar gyfer amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y cymorth hwn, ynghyd â'r £1.6m (a ddarparwyd gan y portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth) er mwyn cynorthwyo busnesau a thwristiaeth yr effeithiwyd arnynt gan y stormydd, yn sicrhau bod modd i'n cymunedau arfordirol sicrhau adferiad llawn, gan barhau i allu wrthsefyll stormydd a digwyddiadau yn y dyfodol.

28. Yn ogystal, rydw i'n ystyried dewisiadau ariannol er mwyn rhoi sylw i'r costau sy'n weddill er mwyn gwneud gwaith trwsio ar yr arfordir a nodwyd yn yr adolygiad, y tu hwnt i'r cynlluniau llifogydd hynny y maent eisoes wedi cael eu cynllunio ar gyfer 2014/15.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £240 miliwn mewn amddiffynfeydd arfordirol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd **(llinell BEL 2230)** yn ystod cyfnod y Lywodraeth hon. Yn ogystal, byddwn yn cael dros £50 miliwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn ystod y cyfnod, gan leihau'r peryglon ar gyfer dros 7,000 o gartrefi a busnesau ar draws Cymru.

30. Mae modd gweld manylion am y cyllid cyfalaf a neilltuwyd ar gyfer Cynlluniau Rheoli Peryglon Arfordirol a Llifogydd ar dudalennau 12 i 14.

31. Rydw i'n parhau i weithio gyda fy nghydweithwyr Gweinidogol, yn enwedig mewn perthynas ag adfywio, llywodraeth leol a threftadaeth, er mwyn cydlynu ein hymateb fel llywodraeth tuag at y llifogydd ac er mwyn nodi ffynonellau cyllid posibl eraill. Yn ogystal, rydw i'n archwilio amrediad o ddewisiadau cyllido o fewn a thu hwnt i Lywodraeth Cymru, ac mae'r trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd. Rydw i eisoes wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol, Owen Paterson, yn dilyn y cyhoeddiadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar ynghylch cyllido, er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael cyllid canlyniadol o unrhyw arian newydd a gyhoeddir yn Lloegr, yn unol â pholisi'r Datganiad Cyllid.

32. Dros y chwe mis diwethaf, mae dros 1,100 o gartrefi a busnesau wedi cael budd o drefniadau gwell er mwyn diogelu rhag llifogydd. Dros y chwe mis nesaf, bydd ychydig dros 1,000 o gartrefi a busnesau yn cael budd. Mae ymgyrchoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth o lifogydd wedi codi ymwybyddiaeth 8,310 o bobl dros y chwe mis diwethaf, a byddant yn cyrraedd 16,000 pellach dros y chwe mis nesaf.

33. Mae rheoli risg llifogydd mewn ffordd effeithiol yn gofyn am drefniadau gweithio mewn partneriaeth agos rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill a chanddynt fuddiant.

34. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP) yn ddogfennau strategol allweddol a fydd yn cyfeirio ein gwaith rheoli risg ar hyd yr arfordir. Rydym wedi annog ac ariannu grwpiau arfordirol awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i baratoi'r cynlluniau yn unol â'n canllawiau ni.

35. Mae grwpiau arfordirol awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am baratoi a chytuno ar bolisïau cynlluniau Rheoli Traethlin drafft, ond yna, rhaid iddynt gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn eu cymeradwyo'n derfynol. Yn ogystal, mae rheoliadau amgylcheddol Ewropeaidd mewn grym sy'n mynnu bod Cynlluniau Rheoli Traethlin rhanbarthol yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, neu fel arall, fe allent arwain at dor-dyletswydd Ewropeaidd.

36. Mewn man arall, fel yr adroddais yn ystod Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr, rydw i eisoes wedi rhoi sylw i rai o argymhellion adolygiad Kevin Roberts ynghylch cadernid y diwydiant amaeth yng Nghymru a bwriadaf gyflawni ei holl argymhellion eraill, y bydd nifer ohonynt yn cael eu datblygu fel rhan o'm hymgynghoriad am y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) a lansiwyd ym mis Chwefror.

37. Un o argymhellion allweddol cam cyntaf yr adolygiad oedd yr angen i sefydlu cynllun rheoli wrth gefn, yn ychwanegol i drefniadau ymateb brys sefydledig Llywodraeth Cymru, er mwyn helpu i ddelio gydag achosion neilltuol o dywydd difrifol a phroblemau eraill i gymunedau gwledig ac amaethyddol. Bellach, penodwyd rheolwr cadernid gwledig yn fy adran, ac mae'r gwaith o weithredu argymhellion cychwynnol Kevin wedi hen gychwyn. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys creu rhwydwaith cadernid , a arweinir gan swyddogion o'm hadran i, sy'n gallu helpu i gasglu gwybodaeth fanwl a chyflym ar lawr gwlad yn ystod unrhyw sefyllfaoedd a fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol - agwedd a oedd yn arbennig o anodd yn ystod y gwanwyn y llynedd. Rydym wedi cyfarfod gyda rhanddeiliaid o fyd amaeth a rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Croesawaf eu cefnogaeth ar gyfer ein cynigion yn fawr. Mae hon yn ymdrech a rennir yn sicr ddigon.

38. Ar gyfer ail gam ei adolygiad, mae'r dadansoddiadau ariannol a'r dadansoddiadau eraill a gynhaliwyd gan Kevin yn amlygu'r ffaith mai ein ffermwyr defaid a gwartheg mynydd yw'r rhai mwyaf tebygol o wynebu anawsterau sy'n ymwneud â'r tywydd ac sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd ehangach yn y farchnad. Nid yw hyn i ddweud bod y sector llaeth nac unrhyw sector arall o fewn y diwydiant amaeth yn rhydd rhag y problemau hyn, ond ar y cyfan, mae'n ymddangos eu bod mewn sefyllfa well, ac mewn rhai achosion, eu bod wedi paratoi'n well trwy gyfrwng gweithgarwch cynllunio busnes effeithlon ac effeithiol, er mwyn ymdopi gyda'r canlyniadau.

39. Felly, mae'r adroddiad yn nodi bod angen cymorth cyhoeddus parhaus ar ein ffermydd mynydd er mwyn iddynt oroesi ac yna, ffynnu, ond mae'n argymell yn gryf mai cymorth gan weithgarwch datblygu busnes hirdymor ac yn y tymor canolig ddylai fod y ffordd ymlaen, yn hytrach na chymhorthdal uniongyrchol parhaus ac sy'n lleihau. Dyma pam ei fod yn argymell trosglwyddiad llawn o 15%, sydd ar gael trwy gyfrwng gweithgarwch diwygio PAC, o daliadau uniongyrchol colofn 1 i'r rhaglen ddatblygu wledig newydd.

40. Cyhoeddais benderfyniadau am PAC ar 14 Ionawr - eu nod yw ceisio sicrhau llwyddiant amaeth yng Nghymru yn yr hirdymor, ac nid yn y tymor byr yn unig, a chreu'r sylfaen fwyaf cadarn ag y bo modd ar ein cyfer, er mwyn i ni wynebu'r sialensiau sydd o'n blaenau.

41. Mae fy mhenderfyniadau yn cydnabod bod cyllideb PAC yn debygol o ostwng ymhellach ar ôl 2020 a bod yn rhaid i Gymru ddefnyddio'r gyllideb sy'n parhau i fod yn hael ar gyfer y cyfnod nesaf tan 2019 (cyfanswm o oddeutu €2.6 biliwn ar gyfer y ddau Golofn) er mwyn addasu ei diwydiant amaeth ar gyfer dyfodol ariannol llymach.

42. At hynny, bydd fy nghynlluniau newydd ar gyfer Glastir yn datblygu cadernid o fewn y diwydiant amaeth yng Nghymru. Bydd cynigion yn cynorthwyo bioamrywiaeth a thwf gwyrdd mewn ffordd well hefyd - a bydd yn broses haws a chyflymach i ffermwyr fanteisio arni. Eu nod yw helpu busnesau amaethyddol yng Nghymru i ymateb i sialensiau amgylcheddol allweddol, ac fe ddylai ei gwneud yn haws iddynt ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'u gweithgarwch cynhyrchu masnachol. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 28 Mawrth.

43. Yn ogystal, rydym yn gweithio i ddatblygu cadernid yr economi fwyd yng Nghymru ac i wella gallu a chapasiti busnesau bwyd i gystadlu mewn ffordd effeithiol yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor

44. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Cynulliad wrth i mi lansio ymgynghoriad eang am fy Nghynllun Gweithredu drafft ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod. Rydw i wedi amlinellu targedau uchelgeisiol o ran twf; cynnydd o 30% yn y ffigurau gwerthu a gwerth 10% ar ffurf gwerth ychwanegol yn y sector bwyd ac amaeth erbyn 2020. Rhaid i dwf fod yn wyrdd a bydd busnesau yn cael eu cynorthwyo i weithredu mewn ffordd fwy effeithlon mewn perthynas â dŵr, gwastraff a rheoli ynni. Cyflawnir y Cynllun mewn partneriaeth gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau bod y gadwyn gyflenwi gyfan yn gweithredu yn y ffordd fwyaf gynaliadwy, effeithlon a phroffidiol.

45. Rydw i wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar draws Cymru er mwyn ymgynghori gyda'r cyhoedd, ac rydw i'n ddiolchgar i bawb a wnaeth neilltuo amser i fynychu un o'r digwyddiadau hyn. Caiff y cynllun terfynol ei lansio yn nes ymlaen yn ystod y gwanwyn eleni.

46. Ym mis Ionawr, cyflawnais yr ymrwymiadau a wneuthum trwy arwain taith fasnach er mwyn arddangos cig oen Cymreig o'r radd flaenaf mewn marchnadoedd newydd ac mewn marchnadoedd sy'n tyfu yn UD a Chanada. Yn ystod fy ymweliad, daeth yn amlwg bod cryn alw am gig oen o'r ansawdd gorau yn UDA ac os bydd modd i ni fanteisio ar y farchnad hon, mae HCC yn amcangyfrif y byddai modd i Gymru allforio 3,100 tunnell o Gig Oen Cymreig i America bob blwyddyn, gan ennill y swm aruthrol o £20 miliwn ar gyfer economi Cymru.

47. Credaf ei bod yn bryd pennu camau gweithredu a chyfeiriad eglur ar gyfer y diwydiant bwyd nawr. Mae bwyd yn rhywbeth hollol drawsbynciol ac mae'n

cael effaith ar iechyd, addysg, trechu tlodi a'r amgylchedd naturiol, yn ogystal â thwf economaidd a chreu swyddi. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun drafft ar gyfer y diwydiant a'r llywodraeth, gan weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth.

48. Cyfanswm cyllideb rhaglen 2013-14 ar gyfer bwyd **(llinell BEL 2970)** oedd £5m ac fe'i neilltuwyd ar gyfer datblygiad busnes a masnach yn llawn. Disodlwyd Gwir Flas gan Hunaniaeth newydd Bwyd a Diod Cymru er mwyn ymateb i'r galw yn y diwydiant a galw masnachol. Mae dyfodol gwobrau yn cael ei ystyried trwy gyfrwng gweithgarwch ymgynghori am y Cynllun Gweithredu.

49. Yn ogystal, mae'r gwaith wedi cychwyn i ddatblygu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd i Gymru. Mae'r fframwaith newydd yn ystyried pwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid i'n cadernid a'i bwysigrwydd ehangach i'r economi ac i'r wlad gyfan. Fe'i cynlluniwyd i ddiogelu'r cyhoedd rhag clefydau ymhlith anifeiliaid, yn ogystal â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach Cymru gyfan. Caiff y Fframwaith ei lansio yn ystod yr haf 2014.

50. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'n camau gweithredu presennol ynghylch materion megis trechu TB buchol a gwella pa mor barod yr ydym ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â chlefydau anifeiliaid. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagamcanu y bydd oddeutu £5 miliwn yn cael ei wario ar Ddileu TB **(llinell BEL 2273).** Mae hyn yn cynnwys y cyllid er mwyn brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys a mentrau eraill er mwyn trechu'r clefyd a'i atal rhag lledaenu gymaint ag y bo modd. Disgwylir y bydd y gyllideb ar gyfer Taliadau, costau a Derbynebau Lladd TB **(llinell BEL 2272)** yn ddigonol er mwyn bodloni'r galw yn ystod 2013-14

51. Mewn man arall, rydym yn cyflawni amrediad o weithgarwch er mwyn gwella amrywiaeth a chadernid ein hamgylchedd naturiol. Gan gydweithio gyda phartneriaid, ein nod yw canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol a'r mecanweithiau cyflawni ar y cyd, er mwyn rhoi sylw i'r ffaith bod bioamrywiaeth wedi cael ei golli, trwy weithio i wella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru.

52. Cefnogir hyn gan ein Cronfa Cadernid Ecosystemau. Yn ogystal, mae'n gwaith ehangach i gynorthwyo rheolaeth adnoddau naturiol integredig trwy gyfrwng y Gronfa Natur newydd sy'n werth £6 miliwn, yn cyd-fynd â hyn. Mae'r Gronfa yn rhan o becyn ehangach y cynigion yr ydym yn eu datblygu, law yn llaw gyda Bil yr Amgylchedd, sy'n ceisio sicrhau y bydd y broses o reoli ein hadnoddau naturiol yn gydgysylltiedig, a thrwy wneud hynny, y bydd yn gwella iechyd a chadernid natur gan gynorthwyo ein hanghenion am fwyd, dŵr a deunyddiau crai.

53. Bydd y Gronfa Natur yn cynorthwyo'r broses o gyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu ynghylch rheoli adnoddau naturiol, trwy ysgogi gweithredu mwy cydgysylltiedig ac ar y cyd a fydd yn datblygu cadernid systemau naturiol ac a fydd o fudd i fioamrywiaeth Cymru. Yn ogystal, bydd yn gweithredu ar gyfer cadernid y gwasanaethau ecosystem a'r manteision cymdeithasol a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol.

54. Yn ymarferol, nod y gronfa yw grymuso tirfeddianwyr a rheolwyr, cyrff o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithredu ar lawr gwlad. Trwy wneud hyn, ei nod yw cymell y sefydliadau a'r rheolwyr tir hyn i gydweithio er mwyn darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyfunol trwy gyfrwng gweithgarwch rheoli adnoddau naturiol integredig.

55. Rydym wedi cwblhau galwad am syniadau a gynorthwyir gan gyfres o weithdai a chyfarfodydd a gynhelir ar draws Cymru er mwyn cyfrannu at ddatblygiad y gronfa. Cawsom dros 460 o syniadau gan ystod eang o fuddiannau, ac rydym yn dadansoddi'r rhain ar hyn o bryd. Ein nod yw cychwyn y cyllid cyn gynted ag y bo modd ac yn unol â'r hyn a gynlluniwyd o'r cychwyn, caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei wario yn ystod blwyddyn ariannol 2014/15, y bydd y gyllideb yn cael ei sefydlu ar ei chyfer yn ystod proses atodol y gyllideb.

56. Law yn llaw gyda hyn, comisiynwyd astudiaeth er mwyn asesu mecanweithiau marchnad posibl Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn ystyried sut y bydd modd datblygu marchnadoedd newydd yng Nghymru ym maes dŵr, carbon a lliniaru llifogydd fel maes twf posibl ar gyfer economi Cymru a maes lle y bydd modd i Gymru fod ar y blaen o fewn PES.

57. Nod yr astudiaeth yw ystyried y cyfranogwyr posibl mewn marchnad o'r fath, ymddangosiad posibl marchnad yng Nghymru a rôl posibl Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir canfyddiadau'r gwaith ymchwil ddiwedd fis Mawrth a bydd y canlyniadau yn helpu i siapio datblygiad Bil yr Amgylchedd.

58. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariad ynghylch coedwigo a rheoli clefydau mewn coedwigoedd hefyd. Yn dilyn arolygon a wnaeth ddatgelu bod *Phytophthora (P) ramorum* (y clefyd sy'n lladd coed llarwydd) wedi lledaenu, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) weithredu ar unwaith. Darganfuwyd y clefyd, a achosir gan bathogen sy'n ymdebygu i ffwngws, am y tro cyntaf yng Nghymru dair blynedd ôl yn Nyffryn Afan, ac roedd wedi heintio coed dros oddeutu 3,000 hectar erbyn diwedd 2012.

59. Mae coed yn cael eu torri er mwyn ceisio rheoli'r clefyd a chyfyngu'r difrod. Cynhaliwyd arolygon o'r awyr ac maent wedi cadarnhau ei fod wedi lledaenu i rannau eraill o Gymru, ac i Dde Cymru yn arbennig. Mae'r rhaglen i dorri coed llarwydd heintiedig yn parhau ac mae'r pren yn cael ei farchnata mewn ffordd a reolir yn ofalus er mwyn osgoi llifo'r farchnad, fel bod y difrod yn cael ei gyfyngu gymaint ag y bo modd ar gyfer y sector cyfan. Credir y gallai patrymau tywydd sy'n newid fod wedi gwneud cyfraniad mawr at wasgariad y clefyd. Roedd un o'r hafau gwlypaf a gofnodwyd erioed yn 2012, a ddilynwyd gan ddechrau mwyn i'r gaeaf, wedi creu'r amodau cywir i'r clefyd ffynnu.

60. Mae ardaloedd cefn gwlad yn parhau i fod ar agor ac nid yw *P ramorum* yn peri unrhyw risg i iechyd pobl nac anifeiliaid. Anogir y sawl sy'n ymweld â choetiroedd i helpu i atal y clefyd rhag lledaenu trwy gymryd rhai camau syml fel cael gwared ag unrhyw fwd, planhigion neu ddail oddi ar eu dillad, eu

hesgidiau a'u hanifeiliaid anwes.

61. I'r perwyl hwn, ym mis Tachwedd, lansiais strategaeth newydd er mwyn rheoli'r achos. Datblygwyd y strategaeth er mwyn rheoli gwasgariad yr organeb sy'n ymdebygu i ffwngws ac i leihau ei heffaith ar goed llarwydd a'r amgylchedd ehangach yng Nghymru. Mae'n nodi'r cefndir am y clefyd a'r lefel heintio bresennol yng Nghymru, ynghyd â'r dull gweithredu a fydd yn cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol ac economaidd y clefyd yn cael eu lleihau gymaint ag y bo modd. Mae'n un mewn cyfres sy'n cael eu datblygu gan Grŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddiogelu coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau.

62. Er bod clefydau coed yn broblem ddifrifol iawn i'r diwydiant coedwigaeth yng Nghymru, ni ddylem ddiystyru'r cyfle a gyflwynir gan *P ramorum* i ddisodli coed llarwydd gydag amrediad o rywogaethau coed eraill yn unol â dymuniad y Llywodraeth a fynegwyd yn ei strategaeth *Coetiroedd i Gymru*. Bydd hyn yn ein galluogi i greu coetiroedd mwy amrywiol ac y maent mewn sefyllfa well i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd, ac y mae modd iddynt gynnig ystod ehangach o fanteision i'r cyhoedd.

63. O ystyried y ffaith bod y clefyd wedi effeithio ar yr ystad o goetiroedd cyhoeddus mewn ffordd fwy ddifrifol na'r hyn a welwyd mewn mannau eraill, rydw i wedi darparu £2.5 miliwn ychwanegol **(llinell BEL 2451)** i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn eu cynorthwyo i'w reoli. Yn ogystal, hoffwn fanteisio i'r eithaf ar y cyllid posibl sydd ar gael i'r sector preifat er mwyn creu coetiroedd a choedwigoedd trwy gyfrwng Glastir ac RDP 2014-2020. Fel y soniwyd eisoes, rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am Glastir ar hyn o bryd.

***Trechu Tlodi***

64. Mae'r ffocws ar gadernid yn amlygu rôl hanfodol ein hadnoddau naturiol wrth drechu tlodi. Nid yw effeithiau newid hinsawdd - megis tywydd eithafol a'r ffaith bod cost prif fwydydd a thanwydd yn codi - yn cael yr un effaith ar bawb, ac maent yn rhoi'r straen mwyaf ar ein pobl mwyaf agored i niwed. Trwy ddatblygu cadernid yr hinsawdd, rydym yn gwella cadernid grwpiau agored i niwed, gan weithredu er mwyn atal rhagor o bobl rhag wynebu tlodi.

65. Wrth fabwysiadu dull gweithredu sy'n cydnabod sawl ffurf tlodi, rydym yn gweithio i sicrhau bod gennym yr amgylcheddau naturiol ac adeiledig o'r ansawdd gorau. Dylai fod modd i bawb yng Nghymru allu mwyhau amgylchedd glân a diogel; manteisio ar fannau gwyrdd a moroedd glân y maent yn llawn bywyd morol; prynu bwyd iach; a gwresogi eu cartrefi. Mae'n ffocws ar leihau tlodi bwyd a thanwydd, rhoi sylw i ansawdd yr amgylchedd lleol a gwella'n hamgylchedd naturiol, yn gweithio er mwyn sicrhau bod cartref cynnes ac amgylchedd diogel a glân yn rhywbeth y mae modd i bawb fanteisio arnynt.

66. Felly, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r diwydiant gwynt i ddatblygu cofrestr budd economaidd a budd i'r gymuned ynni gwynt ar y tir. Mae'r diwydiant yn gefnogol iawn o'r datrysiad sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o

bryd, a disgwylir lansio'r gofrestr yn gynnar ym mis Ebrill. Cyn bo hir, gofynnir i'r diwydiant a grwpiau cymunedol i ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â buddion yn ystod 2013, a fydd yn cael ei chynnwys yn y gofrestr pan fydd yn cael ei lansio.

67. Trwy gyfrwng ein buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni tlodi tanwydd ac arbed ynni - gan gynnwys Nest ac Arbed - byddwn yn sicrhau gwelliannau sylweddol o ran arbed ynni a chyfleoedd hyfforddiant a swyddi yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

68. Yn ystod 2013/14, mae Arbed eisoes wedi gwneud gwelliannau arbed ynni mewn bron i 900 o gartrefi, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn 2,000 o gartrefi pellach erbyn diwedd mis Mawrth 2014. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2013, gwelwyd Nest yn darparu cyngor a chymorth i 10,852 o ddeiliaid tai ynghylch lleihau eu biliau tanwydd. Roedd 2,650 o'r deiliaid tai hyn ar incwm isel ac yn byw yn yr eiddo mwyaf aneffeithlon. Er 2012, mae ERDF Arbed 2 wedi creu dros 379 o swyddi yn erbyn targed o 243 ac mae Nest wedi creu 26 o swyddi newydd, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant, ac mae'n cynnal dros 300 o swyddi gosod yng Nghymru.

69. Mae rhaglen ERDF Arbed 2 wedi bod yn defnyddio ac yn datblygu offeryn Budd Cymunedol Gwerth Cymru, ac mae hyn wedi arwain at reolwyr y cynllun dros Dde Cymru, Cartrefi Melin, yn cael eu cydnabod fel y rhai cyntaf i sicrhau budd o £2 yn ôl i'r gymuned am bob £1 o fuddsoddiad. Mae'r canlyniadau yn cynnwys y canlynol hefyd: mae'r holl gynlluniau wedi cael eu contractio i fusnesau bach a chanolig o Gymru; mae bron i 400 o swyddi cynaliadwy ac o werth wedi cael eu creu; ac mae dros 40,000 awr o hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar gyfer cyflogeion newydd a chyfredol. Mae'r rhaglen wedi helpu i addasu offeryn Budd Cymunedol Gwerth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn haws i'r busnesau bach ei ddefnyddio, er mwyn iddo gael ei ddefnyddio mewn ffordd ehangach, ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn cynlluniau eraill megis prosiect Maximising Eco.

70. Rydym wedi cael 31 o geisiadau gan awdurdodau lleol am y cyllid cyfalaf o £5m **(llinell BEL 1270 )** y gwnaethom ei ddarparu o gyfalaf a gadwyd yn ganolog er mwyn denu'r rhwymedigaeth cwmni ynni (ECO) i Gymru. Rydym wedi ychwanegu £1.8m ychwanegol at hwn ac wedi cefnogi 17 cynllun a fydd yn llwyddo i sicrhau swm amcangyfrifedig o £5.4m ar ffurf ECO, gan ddarparu cymorth i oddeutu 1850 o gartrefi. Rydym yn ehangu'r ymrwymiad hwn ac yn ystod 2014/15, bydd gwerth £40m **(llinell BEL 1270)** ar gael er mwyn denu ECO ac rydym yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a chwmnïau ynni ar hyn.

71. Adroddais am y cynnydd sy'n cael ei sicrhau yng Nghymru wrth fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid hinsawdd yn yr Adroddiad Blynyddol ar Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr. Roedd yr adroddiad yn dangos bod Cymru yn sicrhau cynnydd da wrth leihau allyriadau ac rydym yn gweithio hefyd i ymateb i sialensiau hinsawdd sy'n newid mewn ffordd sy'n cynnig budd i'n heconomi a'n cymunedau hefyd. Mae'n werth nodi'n arbennig y cynnydd sy'n cael ei sicrhau gan y sector cyhoeddus wrth leihau allyriadau, ond rydw i'n cydnabod bod angen gwneud llawer mwy.

72. O ganlyniad, rydw i wedi ysgogi diweddariad o'n polisi newid hinsawdd er mwyn sicrhau bod modd i ni ymateb i'r sialens hirdymor a achosir gan newid hinsawdd, ond hefyd, i sylweddoli'r cyfleoedd sylweddol a gyflwynir gan hyn er mwyn sicrhau mwy o ffyniant i Gymru trwy gyfrwng Twf Gwyrdd.

73. Wrth weithio i wireddu'r cyfleoedd a gynigir gan ein hadnoddau naturiol, bydd y Strategaeth Ddŵr i Gymru a gyhoeddir cyn bo hir yn cadarnhau sut yr ydym yn bwriadu diogelu a manteisio i'r eithaf ar y buddion a gynigir gan ddŵr, gan gynnig budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd. Cyhoeddir y strategaeth ddrafft at ddibenion ymgynghori yn nes ymlaen yn ystod y gwanwyn eleni, a disgwyliwn i'r strategaeth derfynol gael ei chytuno cyn diwedd 2014.

74. Ym mis Mawrth 2013, gwnaethom gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r hyn y mae angen i gwmnïau dŵr ei ystyried pan fyddant yn datblygu tariff cymdeithasol os byddant yn dewis gwneud hynny, gan gynnwys yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei ystyried wrth benderfynu a ddylai un grŵp o gwsmeriaid gymorthdalu un arall. Yn ogystal, mae'n esbonio'r hyn y dylai Ofwat ei ystyried wrth gymeradwyo cynlluniau codi tâl. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru Welsh Water a Dee Valley Water er mwyn datblygu tariffau cymdeithasol y byddant ar gael o fis Ebrill 2015.

75. Yn hwyr yn ystod 2013, buom yn ymgynghori am reoliadau drafft a fyddai'n helpu i drechu dyledion drwg o fewn y diwydiant dŵr. Caiff cost y ddyled sy'n bodoli ar ôl i bobl fethu talu biliau dŵr ei rhoi ar yr holl gwsmeriaid yng Nghymru sy'n talu. Yng Nghymru, mae hyn yn ychwanegu tua £20 y flwyddyn i fil pob aelwyd. Gallai lleihau'r swm hwn gyfrannu at ostwng cost biliau aelwydydd. Mae'r ymgynghoriad wedi dod i ben erbyn hyn ac ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi'r ymatebion. Ein bwriad ar hyn o bryd yw trefnu bod y rheoliadau terfynol yn dod i rym yn nes ymlaen eleni.

76. Mae'r Pwyllgor wedi holi am ein polisi môr hefyd. Ar 26 Tachwedd 2013, lansiais Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi fy ngweledigaeth ar gyfer y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn defnyddio ein moroedd mewn ffordd gynaliadwy er mwyn meithrin twf glas, gan ddiogelu ein hasedau amgylcheddol pwysig ac amrywiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y cynllun yn cynnwys y camau gweithredu cychwynnol a'r amserlenni cysylltiedig er mwyn dechrau cyflawni'r weledigaeth. Mae'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn wedi cychwyn. Rydw i, er enghraifft, yn gweithio i sicrhau bod proses cynllunio morol gadarn mewn grym erbyn 2015. Bydd hon yn cyfrannu at ddull gweithredu cydgysylltiedig ac wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau morol.

77. Y datblygiad diweddaraf o ran y gwaith hwn yw cyhoeddiad Datganiad Cyfranogi drafft Llywodraeth Cymru, sy'n nodi sut a phryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd a sefydliadau partner trwy gydol y broses gynllunio forol. Bydd yr ymgynghoriad am y datganiad yn dod i ben ar ddydd Gwener 28 Mawrth 2014.

78. Bydd angen ystyried y prif gostau sy'n gysylltiedig gyda gweithredu'r cynllun

Gweithredu Strategol ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru mewn cynlluniau cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Llwyddwyd i sicrhau costau yn 2013-14, yn ymwneud â chamau gweithredu rhagarweiniol ac sy'n werth £112,000 at ei gilydd, o arbedion yn llinell gyllideb y Môr a Physgodfeydd **(llinell BEL 2870)**.

***Deddfwriaeth***

79. Bydd ymatebion i ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn cyfrannu at ddatblygiad y Bil er mwyn pennu fframwaith rhagweithiol a chydgysylltiedig ar gyfer gweithgarwch cynllunio a rheoli adnoddau naturiol. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Gwanwyn.

80. Mae cynigion y Papur Gwyn yn cydnabod bod rheolaeth effeithiol adnoddau naturiol yn gofyn am gyswllt eglur rhwng y ffordd yr ydym yn rheoli ein dŵr, ein haer a'n tir, fel eu bod yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Bydd y Bil yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol modern a fydd yn galluogi dull gweithredu cydgysylltiedig tuag at reoli ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, yn ogystal â chydnabod eu gwerth a'r cyfleoedd a ddarparir ganddynt.

81. Daeth ein Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 i rym ar 28 Ionawr 2014 ac mae'n cynnig offerynnau deddfwriaethol pellach ar gyfer awdurdodau lleol, y bydd modd iddynt eu defnyddio er mwyn goresgyn pori anghyfreithlon, crwydro a gadael ceffylau a merlod. Mae'r Ddeddf yn darparu pwerau cyson ar draws Cymru, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i ddelio gyda'r niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan niwsans pori anghyfreithlon i gymunedau yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau hawdd i'w darllen a ddatblygwyd i gyd-fynd â'r Ddeddf, ynghyd â Chynllun Gweithredu sy'n nodi sut y mae modd i Lywodraeth Cymru, trwy weithio law yn llaw gyda chyrff gorfodi ac elusennau lles, hyrwyddo rheolaeth gyfrifol ceffylau.

82. Yn unol â phenderfyniad Goruchaf Lys y DU, disgwyliwn i'n Bil Sector Amaethyddol (Cymru) gyrraedd y Llyfr Statud yn 2014. Bydd hyn yn hollbwysig o ran darparu cymorth parhaus ar gyfer proffesiynoli amaethyddiaeth yng Nghymru ac wrth gynyddu lefel y sgiliau (Dyfarniad gan y Goruchaf Lys; cynhelir gwrandawiad ar 17/18 Chwefror 2014 a disgwylir i'r dyfarniad gael ei gyfleu 4-6 wythnos wedi hynny).

**Cyllideb**

83. Felly, mae modd rhoi'r crynodeb canlynol o'm cyllideb:

| | **Cyllideb Derfynol 2013-14 £m** | **Cyllideb Atodol 1 2013-14 £m** | **Cyllideb Atodol 2 2013-14 £m** | **Cyllideb Derfynol 2014-15 £m** |
|---|---|---|---|---|
| **Adnodd*** | 324.314 | 327.278 | 304.676 | 302.070 |
| **Cyfalaf** | 73.884 | 86.624 | 102.316 | 113.640 |
| **Cyfanswm DEL** | **398.198** | **413.902** | **406.992** | **415.710** |

* *Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllidebau anariannol ar gyfer costau dibrisiant asedau mewn perthynas â Chyfoeth Naturiol Cymru, Fferm Pwllpeiran, llongau Pysgodfeydd ac asedau sy'n cael eu dal gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO).*

Mae **Atodiad 1** yn cynnig dadansoddiad o'r gyllideb, fesul cam gweithredu a fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn pob cam gweithredu, ynghyd â manylion y newidiadau a weithredwyd yng Nghyllidebau Atodol 1 a 2 ar gyfer 2013-14.

Bu cynnydd net cyffredinol rhwng y gyllideb derfynol ac 2il Gyllideb Atodol 2013-14 o £17.512m, sy'n cynnwys gostyngiad mewn adnoddau o £22.244m a chynnydd mewn cyfalaf o £39.756m.

**Cynnig Cyllideb Atodol 1af – Mehefin 2013**

84. Roedd y prif newidiadau a weithredwyd yn y Gyllideb Atodol gyntaf yn ymwneud â 'Pheirianwaith Llywodraeth', a oedd yn ailddatgan y cyllidebau terfynol ar gyfer 2013-14 dan y portffolios newydd. Roedd y newidiadau eraill a weithredwyd fel a ganlyn:

- Cafodd rhaglen Arbed gyllid cyfalaf a oedd yn werth £2.74 miliwn gan y portffolio Tai ac Adfywio ar gyfer ei chyfraniad er mwyn sicrhau y bydd y rhaglen yn ysgogi ac yn cydlynu buddsoddiad ym mherfformiad ynni cartrefi Cymru, gan helpu i leihau newid hinsawdd, gwaredu tlodi tanwydd a rhoi hwb i adfywio a datblygu economaidd yng Nghymru.

- Atgyfnerthwyd y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol a Llifogydd gan swm cyfalaf ychwanegol o £10 miliwn fel rhan o'r pecyn buddsoddiad cyfalaf a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Mai 2013. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei neilltuo i brosiectau sy'n ceisio lleihau'r perygl i gartrefi a busnesau agored i niwed yn ardaloedd Bae Colwyn, Yr Wyddgrug a Borth a darparu cymorth i waith Cyfoeth Naturiol Cymru i wella'r seilwaith amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol presennol ar draws Cymru;

- Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyllid Buddsoddi i Arbed a oedd yn werth £4.226m er mwyn cynorthwyo'r broses o ad-drefnu'r gweithlu a helpu i integreiddio'r costau pontio cymorth a systemau yn dilyn yr uno;

- Bancio amser - trosglwyddwyd £0.030m o BEL Gweithredu Newid Hinsawdd (2816) i LG&C ac mae'n rhan o gytundeb tair blynedd (hon yw'r ail flwyddyn) er mwyn darparu cyfraniad i'r arian cyfatebol ar gyfer rhaglen bancio Amser Synergy Cymru;

**Cynnig yr 2il Gyllideb Atodol – Chwefror 2014**

85. Roedd y prif newidiadau a weithredwyd yn yr ail gyllideb atodol yn ymwneud â chynnig arbedion i gronfeydd canolog, a chyfnewidiwyd rhan o hon am gyfalaf ac adlinio cyllidebau er mwyn ymateb i'r pwysau ar gostau o fewn MEG. Yn ogystal, manteisiais ar y cyfle i wneud fy mhortffolio yn fwy tryloyw, yn dilyn gweithgarwch i graffu cyllideb 2014-15 ac o ystyried sylwadau aelodau,

trwy:

- Greu cam gweithredu newydd dan 'Ddiogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid' ac ailenwi'r cam gweithredu arall er mwyn adlewyrchu'n well yr hyn y maent yn ei wneud;  a hefyd, creu BEL newydd er mwyn dangos yr incwm a gafwyd gan UE a oedd yn ymwneud â Tb;

- Newid enw cam gweithredu 'Rhannu Costau a chyfrifoldeb' i 'Ddatblygu a chyflawni rhaglenni a pholisi cyffredinol ynghylch Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr'.  Mae'r ddau BEL dan gam gweithredu 'Bodloni anghenion cymunedau gwledig a phrawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad/prawfesur polisïau gwledig camau gweithredu LlCC' wedi cael eu symud i'r cam gweithredu hwn, ac mae BEL newydd wedi cael eu creu er mwyn dangos y cyllidebau a gwariant rhagolygol nifer o raglenni a phwysau ar gostau wrth symud ymlaen;

- Dan Gam Gweithredu Gweinyddu PAC a gwneud taliadau yn ôl rheolau UE a LlC, rydw i wedi creu BEL 2789 newydd (Diwygio PAC/PPIMS) er mwyn crisialu'r gyllideb a'r gwariant a fydd yn cael ei wneud yn erbyn y prif raglenni hyn wrth symud ymlaen mewn perthynas ag agenda diwygio PAC;

- Newid enw cam gweithredu 'Datblygu, rheoli a gorfodi pysgodfeydd Cymru' i 'Datblygu a rheoli môr, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru gan gynnwys gorfodi pysgodfeydd Cymru'.

86. Mae manylion y prif newidiadau eraill fel a ganlyn:

- Mae gwerth £4.9 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol wedi cael ei neilltuo o'r Cronfeydd Canolog (Trwy gyfrwng trosglwyddiad refeniw i gyfalaf) ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Arfordirol a Llifogydd (BEL 2230) ar draws Cymru; nodir y manylion ym mharagraff 30**.**

- Mae gwerth £3 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn cynorthwyo rhaglen TGCh Diwygio PAC sy'n ofynnol o ganlyniad i'r newidiadau i daliadau Uniongyrchol i ffermwyr yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol yn cael ei neilltuo i BEL 2789;

- Mae cyllid cyfalaf sy'n werth £7.792 miliwn yn cael ei drosglwyddo o DECC mewn perthynas â'r Fargen Werdd;

- Mae cyllid adnoddau sy'n werth £26.7 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn, £18.8 miliwn fel cyfraniad i reoli'r pwysau cynyddol o ran costau ar draws Llywodraeth Cymru;  a £7.9 miliwn a drosglwyddwyd i gyfalaf (£4.9 miliwn ar gyfer llifogydd a £3.0 miliwn ar gyfer Diwygio PAC).

- Trosglwyddwyd adnodd o £0.871 miliwn i'r Cronfeydd wrth Gefn mewn perthynas â derbynebau amcangyfrifedig gan Ffermydd Gwynt ac a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru (LlC). Yna, trosglwyddir yr incwm i gronfa gyfunol Llywodraeth Cymru;

- Trosglwyddwyd gwerth £5.486 miliwn mewn ffurf anariannol o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer dibrisiant cynyddol o £5.385 miliwn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, £0.029 miliwn ar gyfer Pwllpeiran a £0.092 miliwn ar gyfer dibrisiant asedau OCVO;

- Trosglwyddwyd £0.450 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CS&A) er mwyn darparu cyllid DRC digonol ar gyfer cyn gyflogeion Comisiwn Coedwigaeth Cymru y maent bellach yn gweithio i Lywodraeth Cymru;

